Cynllun Gwers ABCh CLIC - CA4

Datblygiad Moesol ac Ysbrydol – Eich Hawliau

Amlinelliad & Gofynion

Pwnc/Teitl cyffredinol ar gyfer y wers:

Beth ydy fy hawliau i ryddid meddwl, cred a chrefydd?
Erthyglau 14 a 30 y CCUHP.

Cyfnod allweddol neu grŵp myfyrwyr:

CA4

Amser sydd angen

1 awr

Disgrifiad byr

I gynyddu ymwybyddiaeth myfyrwyr o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, yn benodol Erthyglau 14 a 30, ac i greu poster hysbysu/ cyflwyniad ar gyfer pobl ifanc o'r un oed am y CCUHP.

Datblygu meddwl	✓	Datblygu rhifo	
Datblygu cyfathrebu	✓	Gweithio gydag eraill	✓
Datblygu TGC	✓	Gwella hunan ddysgu	✓

Cysylltiad i Fframwaith ABCh APADGOS ar gyfer rai 7 i 19 oed yng Nghymru

1.Dinasyddiaeth Weithgar

Canlyniad dysgu penodol bwriadol:

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

» ddatblygu parch at eu hunain ac eraill
» gwerthfawrogi amrywiaeth a chyfleoedd cyfartal, ac i amarch anghyfi-awnder, ecsploetiaeth a gwrthodiad hawliau dynol

Ac i ddeall

» materion a digwyddiadau cyfoes lleol a byd-eang

Datblygiad Moesol ac Ysbrydol

Dylai dysgwyr fod â chyfleoedd i:

» gysidro cwestiynau a materion

Ac i ddeall

» sut mae cred a gwerthoedd yn effeithio hunaniaeth bersonol a ffordd o fyw
» y ffactorau sydd yn ymglymedig mewn gwneud dyfarniadau moesol
» yr amrediad o werthoedd ac egwyddorion mae pobl yn byw wrthynt

Offer, adnoddau a'r paratoi sydd yn rhaid gwneud:

Cyfleusterau TG
Ysgrifbinnau lliw
Papur A1

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cynllun Gwers ABCh CLIC - CA4

Datblygiad Moesol ac Ysbrydol – Eich Hawliau

Cynllun Gwers

Dull

Cychwyn Gwers: (5 munud)

» Gofynnwch i'r myfyrwyr mewn grwpiau bach i feddwl am ddiffiniad eu hunain o EICH HAWLIAU a thrafod pam ei bod hi'n bwysig cael hawliau

» Gofynnwch i'r myfyrwyr os gallent gofio rhai o'r Hawliau Plant a Hawliau Dynol. Rhowch yr atebion ar y bwrdd

» Hawliau – eich breintiau, hawliau, beth allech wneud yn gyfreithiol neu'n foesol

Cyflwyniad: (5 munud)

» Esboniwch fod hawliau dynol yn warantau cyffredinol sydd yn amddiffyn unigolion a grwpiau yn erbyn gweithrediadau sydd yn effeithio ar eu rhyddid ac urddas dynol. Mae pawb efo hawliau, wedi'u hamddiffyn gan gyfraith a ni allent gael eu cymryd i ffwrdd oddi wrthynt

» Fel plant a phobl ifanc mae hefyd hawliau ychwanegol i amddiffyn chi ac i sicrhau eich bod yn cael y cyfleoedd gorau mewn bywyd

» Cafodd yr hawliau ychwanegol hyn eu datblygu gan y Cenhedloedd Unedig ac maent yn cael eu manylu yn rhywbeth a elwir yn CCUHP – Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Gellir gweld neu lawr lwytho crynodeb defnyddiol ar: http://www.cewc-cymru.org.uk/i_bobl_ifanc/eich_hawliau/1621/

Gweithgareddau: (45 munud)

» Gofynnwch i'r myfyrwyr fynd i'r wefan CLIC a gwylio DVD 10 munud gan Y Ddraig Ffynci am hanes y CCUHP. Efallai hoffech ddewis pa ran i wylio yn ôl y dysgwyr http://www.cliconline.co.uk/cym/gwybodaeth/y-gyfraith-hawliau-a-dinasyddiaeth/ http://www.funkydragon.org/en/fe/page.asp?n1=1036&n2=1853

» Gofynnwch i'r myfyrwyr ymweld â'r wefan CLIC > Gwybodaeth > Y Gyfraith, Hawliau a Dinasyddiaeth > Hawliau a Chyfrifoldebau > Hawliau Plant http://www.cliconline.co.uk/cym/gwybodaeth/y-gyfraith-hawliau-a-dinasyddiaeth/hawliau-a-chyfrifoldebau/hawliau-plant/ i edrych ar yr erthyglau CCUHP. Gall lawrlwytho/edrych ar grynodeb defnyddiol o: www.unicef.org/crc/files/Rights_overview.pdf

» Gwahanwch y myfyrwyr i mewn i grwpiau a rhoi papur siart fflip ac ysgrifbinnau marcio iddynt.

Erthygl 14 (rhyddid meddwl, cred a chrefydd):
Mae gan bob plentyn yr hawl i feddwl a chredu'r hyn a fynnant ac i arfer eu crefydd, cyhyd ac nad ydynt yn cadw pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau. Dylai llywodraeth barchu hawliau rhieni i arwain eu plant yn y materion hyn.

Erthygl 30 (plant o leiafrifoedd)
Mae gan bob plentyn yr hawl i ddysgu a defnyddio iaith ac arferion a chrefydd eu teuluoedd, boed y rhain yn cael eu rhannu gan fwyafrif y bobl yn y wlad maent yn byw neu beidio

» Beth mae'n ei olygu i gael yr hawliau hyn: gofynnwch i'r myfyrwyr edrych ar Erthyglau 14 a 30 a thrafod/adlewyrchu eu dealltwriaeth o'r erthyglau a beth mae cael yr hawliau hyn yn ei olygu. Gallent ysgrifennu eu dehongliad ar bapur siart fflip

» Beth mae'n ei olygu i beidio cael yr hawliau hyn: yn defnyddio'r rhyngrwyd, darganfyddwch un neu ddwy esiampl ble mae plant a phobl ifanc o wledydd eraill yn cael eu hamddifadu o'r hawliau hyn

» **Bwydo'n ôl**: Gofynnwch i'r grwpiau fwydo'n ôl eu hesiamplau a dehongliadau. Hwyluswch drafodaeth am sut maent yn teimlo am yr erthyglau yma

» **Creu:** Gofynnwch i'r myfyrwyr greu poster hyrwyddo (yn defnyddio papur siart fflip A1 neu photoshop) neu gyflwyniad power point i godi ymwybyddiaeth o'r hawliau hyn ymysg pobl ifanc o'r un oedran. Gofynnwch i'r grŵp gyflwyno'r rhain i'r dosbarth

Cyflawni (5 munud)

» Crynhoi'r themâu a phwyntiau allweddol o fyfyrio ac ymchwil y myfyrwyr. Arwydd bostiwch nhw i ffynonellau eraill o wybodaeth, cyngor a chefnogaeth

Awgrymiadau ac adnoddau ychwanegol:

Adran Y Gyfraith, Hawliau a Dinasyddiaeth CLIC
http://www.cliconline.co.uk/cym/gwybodaeth/y-gyfraith-hawliau-a-dinasyddiaeth/

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government